

Huw Lewis AC / AM  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref HL/02259/15

Jessica Turner  
Unison

J.Turner@unison.co.uk

25 November 2015

Dear All

Thank you for your letter dated 16 November. I am sorry to hear that you think the arrangements put in place for the education workforce unions representation on the Curriculum Reform - Strategic Stakeholder Group, are unsatisfactory.

As stated in my letter of 3 November my preferred option would have been for trade union membership to be limited to 3 members with representatives attending on a rota basis. These representatives would then provide feedback/contributions to and from all unions. From the joint reply of 11 of the 12 unions invited it appears that you do not believe that this approach is feasible. As you are well aware I have always given a very high priority to working with the profession to advance this agenda and, as such, I have decided to invite all 12 education workforce unions to this Group.

As mentioned to you previously by Welsh Government officials, we are concerned that the size of the Strategic Stakeholder Group may reduce its effectiveness. Therefore, initially these arrangements will be in place on a temporary basis. At an agreed point in time, we will review the Group's remit and membership to ensure that when linked to the other elements of the governance structure, including working groups, it adds maximum value to implementation of the recommendations in Successful Futures.

However, as previously stated, given their size and breadth, duplication of membership between other groups and the Strategic Stakeholder Group will be kept to a minimum. Consequently, "Successful futures" should no longer need to remain as a standing item at Union Partnership Group meetings as updates and feedback will now be received from your attendance at the stakeholder group.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400  
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I hope that individual and/or trade union representatives will still feel able to participate with other groups as they are established to look at specific work areas where a limited membership will be essential for effective working.

I am copying this reply to the other 10 signatories of your letter dated 16 November and to ASCL Cymru to whom the invitation above also applies.

Yours sincerely

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Huw Lewis'.

**Huw Lewis AC / AM**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref HL/02259/15

Jessica Turner  
Unison

J.Turner@unison.co.uk

25 Tachwedd 2015

Annwyl Pawb

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd. Mae'n ddrwg gennyf glywed eich bod yn teimlo nad yw'r trefniadau'n foddhaol o ran cynrychiolaeth undebau'r gweithlu addysg ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol – Diwygio'r Cwricwlwm.

Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 3 Tachwedd, y dewis gorau yn fy marn i fyddai cyfyngu aelodaeth yr undebau llafur i dri aelod, gyda chynrychiolwyr yn mynychu ar sail rota. Byddai disgwyl i'r cynrychiolwyr wedyn gyfrannu ar ran yr holl undebau a rhannu unrhyw adborth gyda nhw. O'r ymateb ar y cyd a gafwyd gan 11 o'r 12 undeb, ymddangys nad ydych yn teimlo y byddai'r dull hwn o weithredu'n ymarferol. Fel y gwyddoch, rwyf bob amser yn blaenoriaethu'r angen i weithio gyda'r proffesiwn er mwyn cyflawni'r agenda hon, ac felly rwyf wedi penderfynu gwahodd pob un o'r 12 undeb sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg i fod yn rhan o'r Grŵp.

Fel mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi sôn wrthy, rydym yn pryderu y gallai maint y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ei wneud yn llai effeithiol, ac felly trefniadau dros dro fydd y rhain i ddechrau. Wedi cyfnod cytûn, byddwn yn adolygu cylch gwaith ac aelodaeth y Grŵp er mwyn sicrhau, gan ystyried elfennau eraill o'r drefn lywodraethu, ei fod yn ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl i'r broses o weithredu'r argymhellion a wnaed yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Fodd bynnag, fel y dywedwyd eisoes, oherwydd eu maint a'u cwmpas, bydd angen sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddyblygu rhwng grwpiau eraill a'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol. Felly ni fydd angen i *Dyfodol Llwyddiannus* barhau'n eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Grŵp Partneriaeth yr Undebau, gan y byddwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a'r adborth drwy fod yn bresennol yn y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol.

Rwy'n gobeithio y bydd cynrychiolwyr unigol a/neu gynrychiolwyr yr undebau llafur yn parhau i deimlo y gallant gyfrannu at waith grwpiau eraill wrth iddynt gael eu creu i edrych ar feysydd gwaith penodol. Yn y grwpiau hynny bydd yn rhaid cyfyngu ar nifer yr aelodau er mwyn iddynt allu gweithio'n effeithiol.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at y deg arall sydd wedi llofnodi eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd ac at Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, y mae'r gwahoddiad uchod hefyd ar ei chyfer.

Yn gywir



**Huw Lewis AC / AM**  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills